



Ysgol Teithio Llesol Active Travel School

Ysgol

Ysgol Gynradd Howardian

Menter:

Annog disgyblion a rheini i gerdded, beicio neu sgwtio i'r ysol i leihau traffig wrth gathau'r ysgol.

Disgrifiwch y problem:

- Traffig wrth gathau'r ysgol ar adegau gollwng a nôl.
- Ymddygiad parcio gwael wrth fynedfa'r ysgol.

Dywedwch wrthym beth yw'r ateb:

Cau gathau'r ysgol

Mae'r prif gathau mynediad i gerbydau i'r ysgol ar gau rhwng 08:45 a 9.15am a rhwng 15:00 a 15:45 i sicrhau amgylchedd diogel heb geir i blant wrth iddynt gyrraedd a gadael yr ysgol.

Polisi Trafnidiaeth Gynaliadwy

Mae'r polisi trafndiaeth gynaliadwy'n nodi beth a wna'r ysgol i annog beicio, cerdded a sgwtio i'r daith ysgol. Rhennir copi â rhieni newydd ar ddechrau tymor yr hydref.

Gweithio gyda Theithiau Llesol Sustrans

Gan weithio gyda Sustrans rydym yn cynnal sesiynau Doctor Beic yn rheolaidd, cystadleuaeth rhoi bling i'r beic/sgwter ac yn cymryd rhan yn y Pedal Mawr a'r Shift Mawr. Mae Sustrans wedi ein helpu yn yr ysgol i weithio at ein gwobr Nod Arian Ysgol. Mae'r wobwr yn cydnabod ein hymrwymiad parhaus i hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy.

Cyngor ar Barcio a Cherdded

Mae polisi trafndiaeth gynaliadwy'r ysgol yn nodi pedwar lleoliad parcio a cherdded rhwng 5 a 8 munud i ffwrdd o'r ysgol ar droed. Caiff y wybodaeth ei rhannu â rhieni ar ddechrau pob tymor.

Hyfforddiant Sgwter

Gan weithio gyda thîm Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Caerdydd mae hyfforddiant sgwter wedi'i roi i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae sgwtio wedi bod mor boblogaidd yn yr ysgol bod Cyngor Caerdydd bellach yn cynorthwyo â darparu llefydd parcio sgwter i ateb y galw.

Cost (os oes):

Manteision:

Disgyblion

Mae'r disgyblion yn falch iawn o'r fenter - amlygwyd hyn yn ein harolwg Estyn diweddar! Mwynhaodd ein Criw Teithiau Llesol gynnal y gwasanaethau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau. Mae annog teithio llesol yn fuddiol i iechyd a lles ein disgyblion ac mae'n eu gwneud yn fwy annibynnol. Mae gan y disgyblion hefyd ymwybyddiaeth well o ddiogelwch ar y ffordd. Mae hyfforddiant sgwter a beicio rheolaidd wedi bod o fudd mawr i hyder ein disgyblion.

Ysgol

Mae perthnasau cadarnhaol wedi'u meithrin a chafwyd cyfleoedd ychwanegol. Mae ysgol wrthi'n gweithio gyda Thîm Teithio Lles a Thîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor. Mae'r Tîm Teithio Llesol yn ein helpu i greu cynllun gweithredu i'r 12 mis nesaf ac yn ein helpu i gynnwys rhieni yn y broses. Mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd hefyd yn gweithio gyda ni i gynllunio sesiwn hyfforddiant beicio i staff

Rhieni

Mae ein rhieni'n gefnogol iawn o'r fenter. Cawn ymateb gwych wrth gymryd rhan mewn digwyddiadau fel y Big Pedal a'r Big Shift. Mae rhannu cyngor ar Barcio a Cherdded gyda rhieni wedi bod yn ddefnyddiol.

Os oes gan ysgol arall ddiddodeb mewn dilyn eich profiad, beth fydddech chi'n ei argymhell fel y cam nesaf?

Cysylltu â Thîm Teithio Llesol Cyngor Caerdydd - maen nhw wedi bod o gymorth mawr gan roi llawer o gyfleoedd gwahanol i'r disgyblion.